CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 13, 2024

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Chwefror 13, 2024 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Simon Evans, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Llinos Rowlands. Hefyd Henry M. Edwards a Cyng. Delyth Lloyd Griffiths .

Diolchodd Simon Evans (Cadeirydd) Gwenan Owen am gadeirio cyfarfod Ionawr yn ei absenoldeb.

**1. Ymddiheuriadau:** Elfed ap Gomer, Gareth Ellis, Gwenan Owen, Eleri Jones.

2. Datgan diddordeb:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 9, 2024**

Cynigwyd y cofnodion gan Llinos Rowlands ac eilwyd gan Geraint Rowlands.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Ionawr 9, 2024**

Eitem 11.7. Cafwyd wybod gan Delyth bydd achos ysbwrial yn Hengwrt, Llanelltyd yn cael ei glywed ar 19/1/2024 yn Llys y Goron Caerdydd.

Anfonwyd y neges i'r aelodau.

Eitem 5.a. Mae Mr Meurig Ashton yn dymuno cael torri gwair ym mis Gorffennaf. Mae hyn oherwydd y gwrthwynebiad iddo dorri gwair yn Ebrill/Mai. Felly bydd torriad gwair ym Mehefin, Gorffennaf, Awst a Hydref.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis nesaf ac i Simon Evans gwneud ymoliadau gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am eu cynllun i dorri gwair.

Eitem 4. Eitem 4., Eitem 12.b. Llythyr ateb (31/1/2024) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod am ein llythyr wedi cael ei anfon ymlaen i Cyfoeth Naturiol Cymru am ateb.

Eitem 12.b. Penderfynwyd diolch Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am wneud da o sgubo'r ffordd.

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (22/2024) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

b. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Cerebral Palsy Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Theatr Baracaws, Dawns i Bawb, Marie Curie Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd.

Llythyr (16/11/2022) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2023-24. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 o dan adran 137 (1) a (3) £9.93 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn £9.93 x 386 = £3,832.98.

<u>Penderfynwyd</u> rhoi arian i sefydliadau canlyniad:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Cyngor ar Bopeth, Gwynedd - £150
Ambiwlans Awyr Cymru - £300

Cymdeithas Y Dydd - £75
Ysgol Feithrin Dolgellau - £250
Tŷ Gobaith a Hope House (Children's Hospices) - £120
Marie Curie £120.

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau).
Theatr Bara Caws - £30.

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £150

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
Neuadd Bentref Bontddu: - £450
Neuadd Bentref Llanelltyd - £450

Cyfanswm: £2,095.

c. Rhoddwyd rhodd o £300 i Neuadd Bentref Bontddu fel cyfraniad iddynt gael diffibriliwr i'r Neuadd. Cofnodion Ebrill 11, 2023, Eitem 1.

ch. Llythyr (12/1/2024) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod mae'r ad-daliad i'r Clerc a Cyllid a Thollau EM yn £984.42 ond am fod y swm yn uchel mae'n well gael ei rannu neu bydd Yswiriant gwladol cyflogwr i'w dalu.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

 Llofnod: Dyddiad:

Oherwydd diffyg dealltwriaeth y Clerc a sgwrs oedd ei angen gyda Mrs Rhian Davies, Swyddog gyda E.W. Owen a'i Chwmni, y taliad i'r Clerc yw £463.60 (i Ionawr), £463.80 (i Chwefror) a £463.60 (i Mawrth). Y taliad i Cyllid a Thollau EM yw £116.00 (i Ionawr), £115.80 (i Chwefror) a £116.00 (i Mawrth).

d. Bil (31/1/2024) am £216.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn 1af Mawrth, 2024 i gynnal a chadw'r wefan am flwyddyn arall.

Penderfynwyd talu'r bil

dd. Mae angen talu'r Clerc £150 tuag at weithio o adref 2023–2024. (Gweler Cofnodion Tachwedd 14, 2023, Eitem 5.dd).

Penderfynwyd talu'r swm.

e. Llythyr (12/2/2024) oddi wrth Marie Curie Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

e. Balans yn y banc ar 29/1/2024: £8,820.24.

**6. Archwilio**

**7. Mynwent Llanelltyd**

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/1/2023) oddi wrth Mike Owen, Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd gyda poster 'Cyfarfod Cyhoeddus' yn Neuadd y Pentref, Ganllwyd ynglŷn â 'Beth fydd y dyfodol i Ganolfan Ymwelwyr Coed y Brenin?'. Cyfarfod ar 1 Chwefror am 6:30yh.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (26/1/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Taclusi Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Llanelltyd ar 5-9/2/2024.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (6/2/2023) (trwy law Delyth a trwy'r post) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Llwybr Troed Rhif 71 yng Nghymuned Llanelltyd; Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2024. Mae'r Cyngor wedi gwneud y gorchymyn er mwyn hwyluso mynediad i'r cyhoedd at y llwybr troed ym Mhen y Gribin, Bontddu. Amgáu mae copi o'r gorchymyn a rhybudd statudol gyda dyddiad olaf y gellid derbyn gwrthwynebiad sef Mawrth 8, 2024 .

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Derbyniwyd llythyr (30/3/2023) ynglŷn â'r llwybr gan Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd yn holi os mae sylwadau ar newid maent am ei wneud i'r llwybr droed. Rhoddwyd gwybod iddynt ein bod yn cefnogi'r newid. 9Gweler cofnodion Ebrill 11, 2023, Eitem 10.dd).

**<u>10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths</u>**

a. Fe gyhoeddwyd (5/2/2024) ddatganiad rhagweithiol gan Cyngor Gwynedd yn ystyried cynllun i gyfarch bwlch ariannol o £15 miliwn (llyw.cymru)), er mwyn gosod y cyd-destun ac egluro'r sefyllfa amhosib mae llywodraeth leol yn ei wynebu. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd trafodaethau cyhoeddus pellach, ac fe gyflwynir i Gabinet y Cyngor ar 20 Chwefror, ac yna bydd Cynghorwyr Gwynedd yn cytuno ar gyllideb derfynol yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth.

1.Coed y Brenin
200 wedi mynychu y cyfarfod 1/2/24.
Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi gwybodaeth am ddyfodol y safle.
Gweithgor lleol o dan arweiniad Rhys Llywelyn wedi ei ffurfio.
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.
Diolch i Seimon Evans am roi ei enw ymlaen i fod ar y gweithgor.

2. Cynlluniau Tai, rhannu ecwiti a grantiau ar gyfer tai gwag.
Nifer fach yn y broses o brynu drwy y cynllun yma yn yr ardal yma.
Peth gwaith gweinyddol i wneud i fodloni rheolau Gwynedd ( gormod o waith gweinyddol ).

3.Ambiwlans Awyr
Mae datganiad wedi dod yn ddiweddar fod y gwasanaeth yn mynd o Trallwng a Dinas Dinlle ac yn mynd i Rhuddlan.
Mae yr aelod seneddol ac aelod y senedd (Liz a Mabon) yn cyfarfod gyda'r ymgyrchwyr wythnos yma.

4.Bin Baw Ci yn Bontddu.
Mae cais wedi dod i mi ystyried cael un yn ganol Bontddu.

5.Bin Baw ci Llanelltyd wedi ei wagu ar ôl i mi ofyn i'r cyngor ar ôl y cyfarfod diwethaf.

 Llofnod: Dyddiad:

6.Cais Cynllunio Bonddu Hall fod i ddod o flaen y Parc ym mis Mawrth 2024.Dim gwybodaeth bellach wedi dod gan Adran Gynllunio y Parc i Delyth.
Mae yr heddlu yn cadw llygaid ar yr eiddo ar hyn o bryd rhag ofn i droseddau ddigwydd yn y lleoliad.

7.Sefyllfa Ariannol Cyngor Gwynedd. Mae posibilrwydd bydd treth y Cyngor yn codi 9.15% pan fydd y cyngor llawn yn cyfarfod ym Mis Mawrth. Mae nifer o swyddi wedi eu rhewi a nifer o swyddi gwag ddim yn cael ei llenwi. Mae adrannau wedi cael gwybod am y toriadau mis yma.

8.Trafodwyd Polisi Iaith y Cyngor Cymuned yn gyffredinol.

## 11. Materion Brys

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg 2023-2024.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn y Rhaglen Asesiad Risg.

b. Mae angen cadarnhau Asedion 2023-2024.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr Asedion.

c. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau'r Fynwent, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad, Cynllun Hyfforddiant.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Yr unig newid oedd yn Rheoliadau Ariannol gyda newid i Eitem 11.1.g. Gweler Cofnodion Gorffennaf 11, 2023, Eitem 4. Eitem 6.b.3

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

ch. Mae angen ysgubo ffordd Cwm Mynach ymhellach na stopio wrth y grid gwartheg fel sy'n cael ei wneud.

Penderfynwyd gofyn i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd os mae rheswm pam maent yn stopio sgubo'r ffordd wrth y grid gwartheg a ddim yn mynd ymhellach. A gofyn os mae'n bosib mynd ymhellach ar hyd y ffordd.

d. Mae angen bin halen yn y lle parcio ceir wrth Foel Ispri Uchaf, Taicynhaeaf. Bydd y bin yn costio tua £440.

Penderfynwyd gofyn i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am roi bin halen yn y lleoliad.

dd. Mae’r fainc yn safle bws o flaen Bro Cymer, Llanelltyd angen sylw.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gydag Asiant Cefnffyrdd Gogledd Chanolbarth Cymru i gael gwybod os mae’n bosib cael lloches fysus newydd yn lle yr un bresenol sydd angen sylw. Mae’r safle bws o flaen Bro Cymer, Llanelltyd ar y ffordd A470.

e. Galwad ffôn (13/2/2024) oddi wrth yr Eglwys yn gwahodd ni i wasanaeth sefydlu y Parchedig Ddr Carol Roberts yn rheithor ar y plwyf. Bydd y gwasanaeth yn Eglwys Santes Fair ar ddydd Sul, Mawrth 3, 2024 am 3.00yp.

f. Dyfodol y Clerc. Mae’r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.

-------------